NEGESEUON ALLWEDDOL BWRDD DIOGELU OEDOLION GOGLEDD CYMRU

O'r cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Iau 30 Tachwedd 2017

- Darparwyd trosolwg gan Ddirprwy Gomisiynydd yr Heddlu ar flaenoriaethau allweddol Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

- Darparwyd diweddariad i'r Bwrdd yn dilyn cyflwyniad a roddwyd i HASCAS gan Aelodau'r Bwrdd ynglŷn â rôl a swyddogaeth y Bwrdd

- Darparwyd gwybodaeth i'r Bwrdd ynglŷn ag erthygl ddiweddar yn y Journal of Adult Protection am ddeddfwriaeth diogelu yng Nghymru. Roedd yr erthygl yn canolbwyntio'n bennaf ar ddiogelu oedolion a gorchmynion cefnogi, a chafwyd trafodaeth ynglŷn â sefyllfaoedd posibl lle gellir defnyddio'r gorchymyn

- Cyflwyniad ar Gangiau Cyffuriau Llinellau Sirol gan Heddlu Gogledd Cymru. Er nad oes diffiniad swyddogol, mae gweithgaredd llinellau sirol nodweddiadol yn cynnwys gang troseddau trefol yn teithio i leoliadau llai i werthu heroin/crac cocên. Mae'r gangiau'n tueddu i ddefnyddio eiddo lleol, sydd fel arfer yn eiddo i unigolyn diamddiffyn, fel canolbwynt i'w gweithgareddau. Gwneir hyn yn aml drwy rym neu orfodaeth (meddiannu cartrefi pobl ddiamddiffyn i werthu cyffuriau), ac mewn rhai achosion, mae dioddefwyr wedi gadael eu cartrefi oherwydd bod ganddyn nhw ofn trais